DRAFT

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, GORFFENNAF 4YDD, 2019 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof; - 0107/19 - Presennol.

Cynghorwyr , Eric W. Roberts, M. Sol Owen, Parch Ioan Gruffydd, D. O. Jones, Mici Plwm, Hefin Underwood, Elfed Gruffydd, Dr Iwan Edgar, A Williams, Elin Hywel, E.J.Hughes

Clerc E. Price.
……..

Cof; - 0207/19 - Ymddiheuriadau.

Cynghorwyr; Dylan Bullard, Ffiona Adams, Mike Parry.

……

Cof; - 0307/19 - Datgan Diddordeb.

Dim diddordeb yn cael ei ddatgan.

……

Cof; - 0407/19 - Aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

…….

Cof; - 0507/19 - Gair gan y Maer.

Gair ac adroddiad y Maer yn y llyfr cofnodion.

……

Cof;-0607/19 - Materion cyfansoddiadol a staff.

Dim materion i`w drafod.

…….

Cof; - 0707/19 - Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Mehefin, 2019 fel rhai cywir a llofnodwyd hwy yn unol a`r gyfraith.

……..

Cof;- 0807/19 - Adroddiad clerc.

- Llwybr cyhoeddus o Ben Garn i lawr at afon Dwyryd wedi dechrau cael ei agor. Clerc angen cael contractwr i agor y darn sydd o ben Garn at y gamfa sef ddechrau'r llwybr. Er mwyn sicrhau safon gwaith angen adroddiad blynyddol ar y llwybrau. Cyng. Michael Sol Owen am baratoi adroddiad a Chynghorwyr am gysidro mabwysiadu llwybr a rhoi adroddiad blynyddol arno.
  - Gan mae'r Cyngor Tref sydd â pherchnogaeth o'r byrddau gwybodaeth bydd y clerc yn gofyn i goriadau byrddau cael eu dychwelyd i'r Siambr. Bydd ffurflen i`w arwyddo i bawb sydd angen y goriad.
  - Bydd y WI-FI allanol yn cael ei osod 22 o Orffennaf. Penderfynu cael is bwyllgor. Enwau cynrychiolwyr yr is bwyllgor yw Maer Eric Wyn Roberts, Dirprwy Maer Mici Plwm, Cynghorwyr Mike Parry, Dylan Bullard, Parch Ioan Gruffydd a Michael Sol Owen, Elin Hywel. Y clerc i drefnu.
  - Awgrymu linc o wefan Cyngor y dref i wefan wwwpwllheli.Cymru a Gwefan twristiaeth Eryri Mynyddoedd ac Mor - penderfynu cael trafodaeth bellach mewn is-bwyllgor WI FI.
  - Cynghorydd Mike Parry am roi gwahoddiad i unigolion yn Fis Medi 2019 gyda`r bwriad i ail cynnal Partneriaeth Pwllheli.
  - Mae angen mynd trwy gynllunio parthed gorchudd i'r Tram.
  - Penderfynu cytuno i roi gwybodaeth berthnasol o gofnodion y Cyngor yn y Ffynnon a Llanw Llyn gyda chopi o'r cofnodion yn Llyfgell Neuadd Dwyfor.

  - Bydd y clerc ar wyliau o 10fed Medi i 20 Fedi 2019.

Cof;-0907/19 - Cynllunio.

a) C19/0565/45/R3 - Estyniad i greu neuadd a chyfleuster cymunedol ac ymestyn maes parcio ac iard chwarae, Ysgol Cymerau Ffordd mela, Pwllheli, LL53 5AR . **Cytuno.**

b) C19/0571/45/LL - Estyniad llawr cyntaf cefn 2 Rhesdai Mitre, Pwllheli LL53 5HE. **Dim gwrthwynebiad.**

c) C19/0587/45/LL - Trosi adeilad storfa i dy annedd. 23 Stryd Penlan, Pwllheli. **Dim gwrthwynebiad.**

Ch) C19/0595/45/LL - Estyniad deulawr ochr a modurdy arwahan. 43, Lôn Abererch, Pwllheli, LL53 5YY. **Dim gwrthwynebiad**.

.....

Cof;-1007/19 - Trafodaeth/cyflwyniad gan Mr Will Martin, cadeirydd clwb rygbi Pwllheli.

Braf oedd clywed bod y Clwb yn cynnal gweithgareddau i dros 500 o bobl ifainc gyda 14 tîm rygbi, 2 criced a 2 hoci. Mae'r clwb angen ei adnewyddu oherwydd y defnydd helaeth yma. Bydd bwriad i newid y cynllun busnes ac mae'r clwb nawr yn cael ei alw`n Glwb Chwaraeon. Bydd ymdrech i`w gael yn Glwb Cymdeithasa i fudiadau yn ogystal ar weithgareddau presennol sydd i bobl ifainc.

Cynigwyd a phenderfynwyd cefnogi'r fenter mewn egwyddor.
Y Cyngor yn hapus i ysgrifennu llythyr o gefnogaeth wedi derbyn rhagor o wybodaeth gan Gadeirydd y Clwb Chwaraeon.

Y Maer yn diolch am y gwaith mae'r clwb yn ei wneud gyda phobl ifainc yr ardal.

.....
Cof;-1107/19. Rheoliadau arolwg dosbarthiadau Pleidleisio a mannau Pleidleisio - llythyr ar y bwrdd.

Roedd y Cyngor yn hapus gyda'r trefniadau presennol.

.....

Cof;-1207/19 - Baneri i'r Maes.
Y Cyngor yn awgrymu cael y gair croeso mewn rhagor o ieithoedd. Hyn i gynnwys ieithoedd cenhedlaethoedd Celtaidd.
Y Cyngor yn rhoi'r hawl i weithredu i'r clerc ar Faer. Y clerc i rannu'r costau gyda'r Cyngor cyn cychwyn y gwaith**.**
.
.....

Cof;-1307/19 - a) Contract i swyddog cynnal a chadw gyda'r oriau ychwanegol bydd ei angen i'r clerc rheoli. Cyng. Elin Hywel.

Rhagor o waith ei angen ar y contract. Ymlaen i'r rhaglen nesaf.

.....

Cof; - 1407/19 - Ymgyrch Annibyniaeth i Gymru. Cyng. Mici Plwm.

Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Alan Williams.

Penderfynwyd yn unfrydol cytuno i gefnogi ymgyrch annibyniaeth i Gymru.

……..

Cof;- 1507/19 - Enwebai i eistedd ar dîm defnyddwyr Neuadd Dwyfor.

Bydd Cynghorwyr Sir; Hefin Underwood a Dylan Bullard yn eistedd gyda'r Maer Eric Wyn Roberts a`r Cyng. Michael Sol Owen a`r clerc.

…….

Cof;-1607/19 - Peipiau o Bont Solomon i Lon Cob-bach. Cyng. Henry Rees Williams.

Ymlaen at y Rhaglen nesaf.

……..

Cof;-1707/19 - Llythyr Drws i Ddrws ar y bwrdd.

Penderfynu derbyn y llythyr.

.....

Cof;-1807/19 - . a) Pam fod y bompren o Bont Solomon i Lôn Cob Bach yn cymryd cymaint o amser i'w thrwsio?

Clerc i lythyru.

b) Barbio Glan Don o 'Crossing' i gyfeiriad Plas Heli yn flêr. Mae boncyffion wedi cael eu rhwygo ac nid eu torri'n daclus ac mae yna dyfiant lle na fedr peiriant fynd ato heb gael ei gyffwrdd o gwbl. Cyng. Elfed Gruffydd.

Mae'r Cynghorydd Hefin Underwood am drafod y mater yn Sirol.

Clerc i Lythyru.

.....

Cof;-1907/19 - Angen "power wash" i safleoedd buses y Maes.

Cyng. Hefin Underwood am wneud ymholiadau.

.....

Cof;-2007/19 - Materion angen trafodaeth

- cost prosiect "dewis byw" fydd yn Ysgol Glan y Môr yw £350.
- Toiledau Marian y De – pam fod oediad yng ngwaith atgyweirio'r toiled?. Clerc am ofyn am eglurhad

Cof;-2107/19 – Derbyniadau.
Cytunwyd.

250	Rhent Adams.	CR
250	Rhent Adams.	CR
2500	Arian at brosiect amgylcheddol gan SPAR Pwllheli.	CR
315	B2 yn talu diwedd contract llun gopio Apogee.	CR

.....

Cof;-2306/19 –Taliadau.
Cytunwyd.

1,110	Atkins - barbio.	203132
36	Cwmni Tan Llun. Tystysgrif flynyddol.	203133
1,000	Cyfraniad WI Fl`r Cyngor Tref i Gyngor Gwynedd.	203134
1,740	Atkins – gosod 2 mainc newydd.	203135
937.06	Costau gweinyddol rhedeg y Siambr.	sieciau
488.14	Tyddyn Sachau – tybiau, blodau, compost.	203136
370.50	HMRC.	203139

Daeth y Cyngor i ben am 8 30 y.h.

Cynhelir Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 5ed o Fedi 2019.
Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 29 Awst 2019.